# Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ac yn gofyn cwestiynau i aelodau'r Cyngor ynglŷn â rhoi'r prif newidiadau polisi ar waith.

## Cefndir

2. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ei gyhoeddi ar 12 Rhagfyr. Amgaeir crynodeb gweithredol o'r Cynllun yn y papur hwn.

3. Nod y cynllun yw cynyddu'n heconomi mewn ffordd gynhwysol, sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bawb, a hyrwyddo llesiant. Mae wedi'i ddatblygu'n unol â'n strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb ac mae'n cynnwys camau i'w cymryd ar gyfer cynyddu'r economi a lleihau anghydraddoldeb. Mae wedi'i ddatblygu i ddiwallu'r anghenion sy'n bodoli heddiw, gan ein paratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol.

4. Mae'r Cynllun yn trawsnewid cyfeiriad ein polisi, y ffordd yr ydym yn cyflawni a'n ffyrdd o weithio, fel rhan o ddull gweithredu ar draws y Llywodraeth. Yng nghyd-destun pwysau ariannol parhaus, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau ac ar ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yn fwy effeithlon.

## Rhoi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar waith

5. Ers cyhoeddi'r Cynllun, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar roi'i gamau gweithredu a'i agenda ar gyfer newid ar waith.

6. Mae'r Cynllun yn cynnwys dros 100 o gamau sy'n effeithio ar bron pob adran o'r Llywodraeth. Er mwyn cynnal momentwm a sbarduno cynnydd, bydd dau gam i'r gwaith gweithredu:

    - Cam Un - Ionawr i Ebrill 2018
    - Cam Dau - o Ebrill 2018 ymlaen

7. Caiff Cam Un ei gynnal drwy ddull hyblyg sy'n canolbwyntio ar fentrau polisïau newydd allweddol. I ddechrau, bydd pedair rhan allweddol i'r gwaith o ddatblygiad polisi:

    a. Rhan Un: Contract Economaidd a'r Meysydd Gweithredu
    b. Rhan Dau: Cronfa Dyfodol yr Economi
    c. Rhan Tri: Y Sectorau Thematig Cenedlaethol a'r Sectorau Sylfaen
    d. Cam Pedwar: Datblygu'r Economi yn y Rhanbarthau.

8. Bydd yr ail gam yn para'n hwy ac yn datblygu a gwreiddio'r newidiadau hynny'n ymhellach.

9. Er mwyn sicrhau'r ffocws cywir, bydd tri maes gwaith gweithredu:

- Bydd **Ymgysylltu a Chyfathrebu**'n cynnal y gwaith ymgysylltu mewnol ac allanol y mae'r Cynllun yn galw amdano.
- Bydd **Newidiadau i Bolisïau a Gweithredu** yn rhoi'r newidiadau newydd i'r polisïau, a nodir yn y Cynllun, ar waith.
- Bydd **Pobl (Swyddogaethau, Strwythur a Diwylliant)** yn ystyried a phennu'r newidiadau sefydliadol sydd eu hangen i gynnal y Cynllun.

**Ymgysylltu wrth weithredu**

10. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn un o bolisïau Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut y byddwn yn gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â nifer o newidiadau allweddol i'n polisïau. Ar gyfer rhoi'r newidiadau hyn ar waith, hoffem gydweithio â rhanddeiliaid gan ddefnyddio'n dull newydd.

11. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio mecanweithiau a strwythurau presennol i drafod rhoi prif elfennau'r Cynllun ar waith, gan gynnwys Cyngor Datblygu'r Economi a Grŵp Strategol Partneriaid Cymdeithasol. Mae cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei ddatblygu er mwyn pennu a nodi cwmpas y gwaith.

**Pwyntiau i'w trafod gan aelodau'r Cyngor**

a) *Bydd y Contract Economaidd yn gymwys o ran ein cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau. Bydd yn sefydlu'r berthynas rhwng busnesau a'r Llywodraeth at ddiben ysgogi twf, gwella cynhyrchiant, a gwneud Cymru yn lle tecach a mwy cystadleuol. Sut gallwn ni sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cefnogi'n dull newydd. Â phwy ddylwn ni gysylltu?*

b) *Mae'r Contract yn gofyn i fusnesau ddangos eu bod wedi ymrwymo i bedwar amod cyn inni allu ystyried ariannu eu cynigion. A ddylai'r Aelodau gael mynegi barn sut y dylem ddiffinio'r amodau hyn, a beth fyddai'r dystiolaeth leiaf i ddangos eu bod wedi ymrwymo?*

c) *Hefyd, mae pum Maes Gweithredu a dylai busnesau sy'n ymgeisio fodloni un ohonynt. A ddylai'r Aelodau gael mynegi barn am sut y dylem ddiffinio'r meini prawf ar gyfer asesu a monitro'r meysydd gweithredu hyn?*

d) *Sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd rhwng pennu meini prawf sy'n rhy hawdd eu bodloni a meini prawf sy'n ddigon heriol heb fod yn rhy fiwrocrataidd na llafurus?*